Tŷ Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Corporate Director - Education and Corporate Services

www.caerffili.gov.uk | www.caerphilly.gov.uk

Annwyl Riant/Ofalwr,

**"Mynychu i Gyflawni"**

Diolch i bawb sy'n annog presenoldeb rheolaidd yr holl ddisgyblion.

Mae disgyblion â phresenoldeb gwael yn fwy tebygol o fod ar ei hôl hi gyda'u gwaith nhw, bod â bylchau yn eu dysgu nhw, ac felly, cael canlyniadau arholiadau is. Bydd hyn yn effeithio ar eu cyfleoedd bywyd nhw ar gyfer y dyfodol.

Mae gan bob un ohonon ni gyfrifoldeb i sicrhau bod ein disgyblion ni'n cael y dechrau gorau mewn bywyd, er mwyn cyrraedd eu llawn botensial.

Mae disgybl sydd â phresenoldeb o 90% yn dal i golli allan ar swm sylweddol o addysg.

Rydw i'n annog pob rhiant/gofalwr i weithio gydag ysgolion i sicrhau bod pob dysgwr yn mynychu mor rheolaidd â phosibl am weddill y flwyddyn academaidd. Rydw i'n annog rhieni i gysylltu â'r ysgol os yw disgybl yn anhapus ynglŷn â mynychu.

**Presenoldeb o 90% = colli ½ diwrnod bob wythnos**

**Presenoldeb o 90% dros 5 mlynedd yn yr ysgol = colli ½ blwyddyn ysgol**

**Sut gall yr Awdurdod Lleol eich helpu chi?**

Mae Swyddogion Lles Addysg yn rhoi cymorth i ysgolion, disgyblion a rhieni/gofalwyr i annog plant i fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys helpu plant i ddelio â problemau sy'n eu hatal nhw rhag fynychu'r ysgol.

Os hoffech chi drafod presenoldeb eich plentyn chi, gofynnwch i ysgol eich plentyn chi am fanylion cyswllt y swyddog lles addysg.

Os nad yw eich plentyn chi'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd, bydd y pennaeth neu aelod dirprwyedig o staff am gwrdd â chi i drafod y rheswm pam nad yw eich plentyn chi'n mynychu'r ysgol. Os yw presenoldeb yn parhau i fod yn broblem, efallai bydd yr ysgol yn eich cyfeirio chi at y Gwasanaeth Lles Addysg.

**Beth am absenoldeb awdurdodedig?**

Efallai y bydd adegau pan fydd eich plentyn chi'n sâl, ac mae hyn i'w ddisgwyl.
Efallai y bydd angen iddyn nhw fynd at y meddyg neu'r deintydd, ond dylai'r apwyntiadau hyn gael eu trefnu **Y TU ALLAN** i oriau ysgol, pan fo'n bosibl.

**How we will use your information**
Information received by the EWS, together with any additional information received from schools, pupils, parents/cares or other organisations, will be recorded and processed by the Education Welfare Service (EWS) which is the department within Caerphilly County Borough Council (CCBC) who holds the statutory responsibility for school attendance and welfare.
Further information on how the information will be processed and used is available in the form of a full privacy notice and can be found at https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/education-welfare-service.aspx

**Tŷ Penallta,**
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

**Penallta House,**
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

**Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol**
**Corporate Director - Education and Corporate Services**

www.caerffili.gov.uk | www.caerphilly.gov.uk

**Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud**

**Rhaid** i bob plentyn o oedran ysgol gorfodol (rhwng 5 ac 16 oed) gael addysg amser llawn addas. Fel rhiant/gofalwr, chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd ac mae gennych chi rôl hanfodol o ran sicrhau ac annog presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o gyrff llywodraethu ysgolion wedi dewis defnyddio hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer rhieni/gofalwyr sydd ddim yn gweithio gyda'r ysgol i helpu eu plentyn nhw i gael addysg reolaidd.

**Bod yn hwyr**

Sicrhewch fod eich plentyn chi'n cyrraedd yr ysgol mewn pryd. Mae cyrraedd yn hwyr i'r ysgol yn gallu achosi straen mawr. Mae disgybl sy'n cyrraedd yn hwyr hefyd yn tarfu ar wersi i eraill**.** Gall fod yn hwyr yn barhaus gael ei ystyried fel absenoldeb anawdurdodedig; a bydd yn cael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Lles Addysg.

Diolch am eich cymorth parhaus a'ch partneriaeth chi gydag ysgolion a lleoliadau addysg eraill er budd pob disgybl.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi ac yn deall yr heriau mewn bywyd sydd weithiau'n gallu cyfrannu at bresenoldeb gwael. Mae pawb sy'n gweithio yn y maes addysg ledled Awdurdod Lleol Caerffili eisiau helpu mewn unrhyw ffordd bosibl i annog presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol.

Paul Warren
Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion

**How we will use your information**
Information received by the EWS, together with any additional information received from schools, pupils, parents/cares or other organisations, will be recorded and processed by the Education Welfare Service (EWS) which is the department within Caerphilly County Borough Council (CCBC) who holds the statutory responsibility for school attendance and welfare.
Further information on how the information will be processed and used is available in the form of a full privacy notice and can be found at
https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/education-welfare-service.aspx